



# Rheoli Glaswellt



[www.hccmpw.org.uk](http://www.hccmpw.org.uk)



Cynhyrchwyd gan



## Cyflwyniad

Mae glaswellt wedi'i reoli'n dda yn borthiant cost-ffeithiol o'r ansawdd uchaf i ddefaid a gwartheg. Ar adeg pan fo ffermydd dan bwysau cynyddol i leihau costau a chael mwy o gynnyrch, gall rheoli glaswellt yn dda chwarae rhan bwysig wrth gael porthiant o'r ansawdd gorau a gwella cyfraddau twf eich da byw. Mae rheoli glaswellt yn dda yn dechrau gyda'r pridd a theimlir ei effaith drwodd at ansawdd bwyta'r cynnyrch terfynol gan y defnyddiwr.

Nod y llyfryn hwn yw crynhoi'r wybodaeth a chyngor ymarferol diweddaraf er mwyn helpu ffermwyr da byw yng Nghymru i reoli glaswellt yn dda. Mae'n disgrifio manteision defnyddio cnydau porfwyd o ansawdd uchel a buddion systemau pori gwahanol wrth ddiwallu gofynion croesgydymffurfio a lleihau'r effaith amgylcheddol.



# Cynnwys

1. Sefydlu a chynnal a chadw tir glas .....	2
2. Defnyddio gwrteithiau, achlesau fferm a rheoli chwyn .....	5
3. Rheoli pori a pherfformiad da byw .....	9
4. Pori cymysg .....	12
5. Gwneud silwair, gwywair a gwair.....	13
6. Porthiant dros y gaeaf a phori estynedig.....	18
7. Porfwydydd gwahanol .....	20
8. Ansawdd y tir glas a'r cynnyrch.....	22

Hybu Cig Cymru  
Blwch SP 176  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 2YA  
Ebost: [info@hccmpw.org.uk](mailto:info@hccmpw.org.uk)

Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'l drosglwyddo mewn unrhyw ddull heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y cwmni. Er y cymerwyd pob gofal rhesymol wrth ei baratoi, ni roddir sicrwydd ynghylc ei gywirdeb, ac ni dderbynnir cyfrifoldeb drosunrhyw golled neu ddifrod a achosir trwy ddibynnu ar unrhyw ddatganiad neu anwaith yn y cyhoeddiad hwn.

Mae HCC yn cydnabod cyfraniad y Ganolfan Datblygu Tir Glas, IBERS i gynnwys technegol y llyfryn hwn.

Dylunio © Hybu Cig Cymru 2008

# Sefydlu a chynnal a chadw tir glas

## Pwysigrwydd dadansoddi'r pridd

Mae cynnal cyfraddau stocio hyfyw a chyfraddau twf da yn dibynnu ar gael y cynnyrch gorau posibl gan dir glas sy'n cael ei hau ar gyfer torri a phori. Ar **dir glas byrdymor** (2-3 blynedd) ar gyfer torri a **thir glas hirdymor** (5+ mlynedd) bydd cyfran y rhywogaethau rhygwellt mwyaf cynhyrchiol yn dirywio wrth i blanhigion y **rhywogaethau brodorol** (gan gynnwys maeswellt a gweunwellt garw) aildyfu. Mae hyn yn arwain at ddirywiad yn ansawdd a chynnyrch y tir glas.

Wrth i oes gynhyrchiol y tir glas byrdymor ddod i ben, y peth gorau i'w wneud yw **ail-hadu'r cae**. Ar **dir glas sy'n seiliedig ar rygwellt lluosflwydd** gallwch naill ai **ail-hadu** er mwyn sefydlu tir glas newydd neu **adnewyddu'r** tir glas presennol drwy dros-hau neu agen-hau.

## SEFYDLU TIR GLAS NEWYDD

Fel arfer bydd tir glas newydd yn cael ei sefydlu ar ffermydd tir isel yn y gwanwyn neu ddiwedd yr haf, ond o mis Gorffennofi dechrau Awst yw'r amser gorau ar lawer o ffermydd tir uchel. Mae hau yn y gwanwyn yn golygu bod llystyfiant ar gael i'w bori'n ddiweddarach yn yr un tymor ac mae hau ddiwedd yr haf yn caniatáu dau doriad o silwair o'r tir glas blaenorol. Mae barlys gwanwyn yn gnwd gwarchod defnyddiol ar gyfer sefydlu tir glas gwanwyn. Dylid hau cymysgeddau sy'n cynnwys meillion cyn canol Awst.

### CYN AIL-HADU GWIRIWCH STATWS Y PRIDD:

- **Profwch y pridd** i weld a oes unrhyw ddiffygion o ran ffosffad (P), potash (K), magnesiwm (Mg), asidedd (pH) a defnydd organig. Y mynegrifau targed lleiaf ar gyfer pridd yw 2 ar gyfer P a K. Gall y bydd angen profion pellach os oes perygl o **ddiffyg elfen nau hybrin**
- Samplwch gaeau glaswellt i ddyfnder o 7.5 cm trwy ddefnyddio digreiddiwr (15 cm mewn caeau âr). Cymerwch 25 o samplau wrth gerdded llwybr 'W' trwy gae er mwyn cael un swmp-sampl i'w ddadansoddi
- Gwiriwch gyflwr ffisegol y pridd a gwnewch yn siŵr na fydd y cynnyrch yn y dyfodol yn cael ei amharu gan **bridd wedi cywasgu** (h.y. cletir neu dir dyfrlawn)

### MAE PRIDD WEDI CYWASGYN:

- yn cyfyngu ar **ddyfnder gwreiddiau** trwy wneud cnydau'n fwy tebygol o fod dan straen yn ystod cyfnodau sych neu yn ystod tywydd gwlyb iawn am fod y draenio'n wael
- yn golygu llai o **fwydod**

### GWEITHGAREDDAU YN Y CAEAU:

- Bydd aredig yn cael gwared ar bridd a gafodd ei gywasgu gan wartheg neu beiriannau pan nad oedd cyflwr y tir ar ei orau. Gall y bydd angen **isbriddio** dyfnach os yw'r pridd caled yn ddwfn
- Heuwch yr hadau yn **unol â'r cyfraddau sy'n cael eu hargymell** – bydd nifer rhy fach yn golygu llai o gynnyrch ac yn ei gwneud yn haws i chwyn dyfu
- Heuwch yr hadau yn 15 mm uchaf pridd mân pan fo'r pridd yn gynnes ac yn ddigon llaith
- Rholiwch y tir er mwyn rhoi gwell cyfle i'r hadau egino
- Ysgogwch blanhigion i **stolio** trwy bori'n ysgafn â gwartheg ifainc neu ddefaid pan fo'r tyfiant yn 7.5-10 cm

### CYMYSGEDDAU HADAU

Cyn prynu cymysgeddau hadau, penderfynwch ynglŷn â (hirdymor ar gyfer pori, byrdymor ar gyfer silwair) yn cael ei ddefnyddio a'r math o anifeiliaid a fydd yn pori'r tir glas (defaid, gwartheg, defaid + gwartheg). Ai N-gwrtaith (confensiynol) neu feillion gwyn (organig, mewnbwn isel) fydd prif ffynhonnell Nitrogen?

- Dylai tir glas ar gyfer torri gynnwys rhywogaethau â dyddiadau torri tebyg er mwyn gwneud yn siŵr bod y torri'n digwydd pan fo'r cynnyrch a'r ansawdd ar eu gorau
- dylai tir glas ar gyfer pori gynnwys rhywogaethau a mathau sy'n **cynnal cynhyrchedd** yn ystod y tymor pori, gan dyfu'n gyson dros yr holl dir. Mae llawer o gymysgeddau'n cynnwys mathau o rygwellt lluosflwydd rhyngol a hwyr. Bydd sefydlu tir glas trwchus sydd wedi stolio'n dda yn lleihau'r perygl o or-sathru



### MAE'R CYMYSGEDDAU MASNACHOL SYDD AR GAEL YN CYNNWYS:

- Rhygwellt lluosflwydd 100% ar gyfer tir glas hirdymor wedi'i wrteithio i'w ddefnyddio ar gyfer pori/silwair
- rhygwellt lluosflwydd + meillion gwyn ar gyfer ffermydd organig a mewnbwn-N isel
- rhygwellt Eidalaid + rhygwellt croesryw ar gyfer tir glas byrdymor â/heb feillion coch ar gyfer torri

Mae rhai cymysgeddau hadau a ddefnyddir i sefydlu tir glas hirdymor hefyd yn cynnwys rhywogaethau eraill gan gynnwys Timothy (bwytadwy iawn), peiswellt (yn goddef gwlybaniaeth), troed y ceiliog (yn gwreiddio'n ddwfn ac yn addas ar gyfer priddoedd sych), meillion Sweden (yn goddef pH a ffrwythlondeb tir is na meillion coch) neu lysiau fel sicori a llyriad (yn gwreiddio'n ddwfn ac â chynnwys mwynol uchel).

## CYNNAL A CHADW TIR GLAS SY'N BODOLI

### MAE CYNNAL CYNNYRCH DA YN DIBYNNU AR:

- cynnal statws maethol y pridd – **profwch y pridd** pob:
  - 4-5 mlynedd mewn caeau **silwair**
  - 7-8 mlynedd mewn caeau **pori**
  - 2-3 blynedd ar **briddoedd tywodlyd** neu os yw'r glawid yn uchel
  - Samplwch bob tro yr un adeg o'r flwyddyn ac o leiaf ddeufis ar ôl y gwasgariad diwethaf o slyri neu wrtaith
- **rheolaeth dda** o'r tir pori a'r tir i'w dorri
- goroesedd y rhywogaethau mwyaf cynhyrchiol (glaswellt, meillion gwyn)

### ADNEWYDDU TIR GLAS SY'N BODOLI

Ffordd ddefnyddiol o **wella cyfansoddiad a chynnyrch** tir glas â chynhyrchedd isel yw cyflwyno had rhywogaethau rhygwellt â chynhyrchedd uwch, neu feillion gwyn os yw mewnbwn N-gwrtaith yn mynd i gael ei ostwng.

Mae modd adnewyddu tir glas a gafodd ei ail-hadu a thiroedd pori parhaol ar ffermydd tir isel a thir uchel.

### MAE ADNEWYDDU TIR GLAS:

- yn **rhatach a chyflymach** nag ail-hadu
- o les osw cynhyrchedd isel y tir glas presennol yn cael ei achosi gan gyfansoddiad botanegol gwael neu os yw tir glas agored yn dueddol o ddenu chwyn yn hytrach nag oherwydd problem reolaeth NA chafodd sylw – gan gynnwys diffyg maetholion, pridd wedi cywasgu, gorburi neu dorri'n rhy isel wrth wneud silwair
- mae gan rygwellt croesryw a **rhygwellt lluosflwydd tetraploid** hadau mwy o faint, maent yn tueddu i egino'n gyflymach ac maent yn fwy ymosodol na rhywogaethau diploid
- yn dechneg ddefnyddiol ar briddoedd bas neu ar dir caregog
- mae'r hadau'n llai tebygol o sefydlu mewn cymhariaeth ag ail-hadu



### DEWISIADAU ADNEWYDDU

- **tros-hau neu hau ar y wyneb:**
  - 8-10 kg/erw o hadau ar gyfer cymysgeddau rhygwellt + meillion gwyn
  - 1.5-2.0 kg/erw o hadau ar gyfer meillion gwyn
- **agen-hau neu ddrilio uniongyrchol:**
  - mae hyn yn sicrhau bod yr hadau'n cyffwrdd yn dda â'r pridd
  - mae'r egino'n well nag wrth dros-hau
  - gall gwllithod fwyta'r planhigion sy'n egino yn ystod cyfnodau gwlyb

### CANLLAWIAU AR GYFER DROS-HAU:

- peidiwch â thros-hau ond os yw'r tir yn cael ei bori i uchder o 3-4 cm
- defnyddiwch oged neu raca i ddau gyfeiriad hyd nes bod y tir yn agored a'r rhan fwyaf o'r chwyn a'r bawiach wedi'u gwaredu – fel arfer bydd angen ogedu a rhacanu rhwng 2 a 6 gwaith
- ceisiwch gael o leiaf 25% o dir moel
- heuwch hadau yn syth ar ôl ogedu
- defnyddiwch wrtaith P a K os oes angen ond DIM Nitrogen
- naill ai defnyddiwch anifeiliaid i sathru'r hadau, neu roler
- parhewch i bori hyd nes bod y planhigion ifainc yn dechrau ymddangos, yna gadewch i'r tir orffwys am 4-5 wythnos
- amser hau:
  - gwanwyn – digon o leithder ar gael, ond gall tymheredd isel y pridd oedi egino a bydd cystadleuaeth gan blanhigion glaswellt sydd wedi ennill eu plwyf
  - ar ôl torri silwair – mae'r tir yn agored ac mae angen llai o ogedu, llai o berygl o gyfnodau sych hir ar ôl y toriadau hwyr



# Defnyddio gwrteithiau, achlesau fferm a rheoli chwyn

Mae cael y cynnyrch gorau posibl o systemau tir glas ac amharu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd yn dibynnu ar **ddefnydd effeithiol** o achlesau a slyri fferm, defnyddio codlysiau i ddarparu nitrogen trwy sefydlogiad a defnyddio gwrteithiau wedi'u prynu. Hefyd, mae **lleihau** effaith y chwyn mewn systemau glaswellt yn hanfodol er mwyn osgoi **lleihau** ansawdd y tir glas sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pori a silwair ac, yn achos rhedyn a llysiau'r gingroen, atal gwenwyno'r da byw.

## MAETHOLION AR GYFER CNYDAU GLASWELLT SY'N CAEL EU TYFU AR GYFER PORI A GWNEUD SILWAIR

Os yw tir glas â glaswellt neu laswellt a meillion yn mynd i gael ei bori neu ei dorri, bydd cyflenwad digonol o faetholion yn gwneud yn siŵr fod modd cael **cynnyrch da**. Fodd bynnag, mae **gorfaethu** wrth ddefnyddio naill ai wrteithiau neu achlesau fferm yn cynyddu'r perygl o **golledion amgylcheddol**, anghydbwysedd o ran egni a phrotein y porthiant a chostau diangen.

Mae **prif ffynonellau** nitrogen (N), ffosffad (P), potash (K) a chalsiwm (Ca) ar ffermydd tir glas yn deillio o:

- maetholion yn y pridd, gan gynnwys nitrogen gweddilliol o gnydau meillion blaenorol
- hau **gwrteithiau wedi'u prynu** sy'n cyflenwi N un-elfen, N-P-K, calch, elfennau hybrin neu sylffwr
- **achles** fferm a **slyri** – ffynhonnell werthfawr o faetholion na ddylid ei hystyried yn ddim ond 'cynnyrch gwastraff'
- **sefydlogiad nitrogen** trwy gyfrwng meillion a chodlysiau eraill – prif ffynhonnell N ar ffermydd organig a llawer o ffermydd confensiynol
- ysgarthion **anifeiliaid sy'n pori**

Mae torri a gwneud silwair yn hytrach na phori'r tir glas yn golygu bod mwy o faetholion yn cael eu **hallgymryd** (eu tynnu o'r tir). Heuwch wrteithiau bob amser ar yr **adeg briodol** a phan fo'r tywydd yn **ffatriol**. Cynhaliwch fynegrifau P a K y pridd yn **2 neu fwy** trwy ddefnyddio ffosffad a photash o wrteithiau ac achlesau yn ôl y gofyn. Mae tir glas sy'n cynnwys glaswellt a meillion yn fwy ymatebol i brinder P a K na thir glas sy'n cynnwys glaswellt yn unig.

## GWRTEITHIAU NITROGEN

Mae **nitrogen** yn **chwarae rhan bwysig** yn nhwf a chynnyrch tir glas glaswellt. Fodd bynnag, mae defnyddio nitrogen yn effeithlon yn dibynnu ar ei hau ar yr adeg gywir, faint o nitrogen sydd ar gael o ffynonellau eraill a sut bydd y tir glas yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.

Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar faint o **wртеithiau nitrogen** sy'n cael eu hau ac ar eu defnyddio'n effeithlon yn cynnwys:

- yr angen i **dymheredd y pridd** fod yn ddigon uchel yn y gwanwyn pan ddylid cyrraedd To- Swm o 200 (yn seiliedig ar y tymheredd cyfartalog cronedig o 01 Ionawr) cyn hau gwrtaith er mwyn gwneud yn siŵr fod nitrogen yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon pan fo'r glaswellt yn dechrau tyfu ar dymheredd o 6oC (gweler tabl 2.1)
- cyflenwad cytbwys o faetholion eraill (P, K etc) a pH boddhaol ar gyfer y pridd
- gwneud yn siŵr fod y nitrogen sydd ar gael o **ffynonellau eraill** (N y pridd, faint o slyri/achles a ddefnyddir, faint o feillion sydd yn y tir glas) yn cael eu cyfrifo CYN hau gwrteithiau nitrogen. Mae faint o nitrogen sydd ar gael o'r pridd yn cael ei ddylanwadu gan y modd y cafodd y tir ei reoli'n flaenorol (gweler tabl 2.2.)
- tir glas ar gyfer **SILWAIR**: Gall system 2-doriad o silwair gynhyrchu 10 t CS/ha a bydd yn tynnu rhwng 200 a 400 kg o N/ha. PEIDIWCH â hau gwrtaith nitrogen ar dir glas â meillion coch
- tir glas **PORI**: Dylai tir glas sy'n cael ei bori â chyfraddau stocio uwch **gael dim mwy na** 60 kg N/ha yn ystod yr hau cyntaf yn y gwanwyn. Dylid defnyddio llai wedyn yn ystod y tymor pori, gan hau dim mwy na 30 neu 40 kg N/ha yn y pen draw. Dylai tir glas â glaswellt + meillion gwyn ar ffermydd anorganig ond derbyn hyd at 40 kg N/ha yn y gwanwyn yn unig
- y **cynnyrch a ddisgwyllir** o'r tir glas â glaswellt cynnyrch uchel byrdymor ag angen mwy o N na thiroedd pori parhaol â chynnyrch is

Tabl 2.1. Arweiniad i ddyddiad hau gwrtaith yn y gwanwyn

Lleoliad/uchder (metrau)	Safleoedd cynnar <i>Arfordirol, yn wynebu'r de, priddoedd ysgafn sy'n draenio'n dda, tir glas byrdymor</i>	Safleoedd cymedrol	Safleoedd hwyr <i>Priddoedd trymach, draenio ataliedig, tiroedd pori parhaol yn cynnwys ychydig o rygwellt, llechweddau llethrog</i>
Tir isel (<100)	Dechrau Chwefror	Diwedd Chwefror	Dechrau/canol Mawrth
Tir uchel (100-250)	Dechrau Mawrth	Canol Mawrth	Diwedd Mawrth
Mynydd wedi'i wella (>250).	Diwedd Mawrth	Dechrau Ebrill	Diwedd Ebrill

Tabl 2.2. Arweiniad i'r **Cyflenwad nitrogen yn y pridd** o gnydau a mewnbynnau blaenorol

Statws Cyflenwad nitrogen yn y pridd	Rheolaeth flaenorol	Y defnydd blaenorol o nitrogen (kg/ha) ( <i>gan gynnwys gwrteithiau + N achles/slyri sydd ar gael</i> )
Uchel	Tir glas hirdymor	>250
Cymedrol	Tir glas hirdymor a gafodd 100-250 kg N/ha y llynedd NEU sydd â chyfran uchel o feillion. Neu dir glas blwyddyn gyntaf ar ôl bod yn dir â am 2 flynedd neu fwy – NID ar bridd tywodlyd ysgafn.  Tir glas hirdymor â mewnbynnau isel.	100-250
Isel	Tir glas blwyddyn gyntaf ar ôl bod yn tyfu cnydau â am 2 flynedd neu fwy ar bridd tywodlyd ysgafn.	<100

Tabl 2.3. Arweiniad i'r defnydd o nitrogen (kg/ha) ar dir glas i'w **dorri ar gyfer silwair**

Statws Cyflenwad nitrogen yn y pridd:	Isel	Cymedrol	Uchel
<b>Ansawdd y silwair:</b>			
<b>Silwair â threuliadedd (Tr) o 68-70 (fel arfer 5-6 wythnos o aildyfu cyn torri)</b>			
Toriad cyntaf	150	120	120
Ail doriad	110	100	100
Trydydd toriad	80	80	60
<b>Silwair â threuliadedd (Tr) o 64-67 (fel arfer &gt;7 wythnos o aildyfu cyn torri)</b>			
Toriad cyntaf	150	150	120
Ail doriad	120	100	100
Trydydd toriad	100	80	80



## ACHLES A SLYRI:

Mae'r rhain yn ffynonellau gwerthfawr o **P a K** sy'n gallu golygu gorfod prynu llai o wrtaith. Ond,

- gallant fod yn **amrywiol** – mae slyri gwartheg yn amrywio o 2-10% CS. Gall planhigion ddefnyddio 50-60% o'r P a 90% o'r K mewn slyri ac achles (gweler tabl 2.4)
- mae **amseru'r** defnydd yn hollbwysig i **leihau'r effaith ar yr amgylchedd** a gwneud yn siŵr fod y maetholion yn cael eu defnyddio gan y tir glas â glaswellt neu â glaswellt+meillion
  - **peidiwch** â gwasgaru achles a slyri ddiwedd yr hydref/dechrau'r gaeaf pan fo glawiad uchel yn peri i faetholion drwytholchi'n waeth a phan fod cymeriant y maetholion yn wael am fod y pridd yn oer
  - peidiwch â gwasgaru ar lechweddau llethrog, tir dyfrlawn neu dir wedi rhewi
  - peidiwch â **gwasgar yn drwm**, sef >35m<sup>3</sup>/ha (3150 galwyn/erw)

Bydd aredig a **chynnwys** achles neu slyri yn y gwely hadau yn helpu i gadw maetholion rhag dianc ac yn helpu hefyd i wella ffurfiant y pridd. Yn ogystal, bydd yn osgoi problemau o slyri/achles yn rhwystro'r dril ac yn amharu ar dwf yr eginblanhigion.

	%CS	Cyfanswm maetholion		
		Nitrogen (N)	Ffosfad (P <sub>2</sub> O <sub>5</sub> )	Potash (K <sub>2</sub> O)
<b>Achlesau solet</b>			kg/t	
<b>Tail gwartheg</b>	25	6.0	3.5	8.0
<b>Tail dofednod</b>	30	16.0	13.0	9.0
<b>Slyri</b>			kg/m <sup>3</sup>	
	2	1.0	0.6	1.5
	6	2.3	1.2	2.7
	10	3.5	2.0	3.8

**Tabl 2.4. Cyfansoddiad achlesau solet a slyri o unedau cig eidion**

## RHEOLI CHWYN

Y prif chwyn sy'n dylanwadu ar gynhyrchu tir glas â glaswellt a glaswellt+meillion yw **dail tafol ac ysgall**. Mae gwlydd yn broblem mewn peth tir glas sydd newydd ei hau a gall rhedyn, llyisiau'r gingroen neu frwyn fod yn broblem benodol ar rai ffermydd tir glas. Gall **defnyddio llyseiddiad** fod yn ddewis i lawer o ffermwyr confensiynol, ond mae ffermydd organig mewn rhai cynlluniau amaeth-amgylcheddol yn dibynnu ar **reolaeth dda ac arferion mecanyddol** ar gyfer rheolaeth effeithiol.

Gall problemau'n ymwneud â chwyn gael eu hachosi gan:

- pridd â ffrwythlondeb **gwael**
- tir glas yn **araf** yn ymsefydlu
- **tir glas agored** yn cael ei dorri ar gyfer silwair oherwydd planhigion unionsyth a thir moel
- torri'n **rhy isel** wrth wneud silwair
- **gor-bori**, gor-sathru
- **gwasgar slyri'n drwchus** a'r pridd yn cael ei gywasgu wrth wasgar slyri

## YSGALL Y MAES

Gall **ysgall** ymledu'n gyflym trwy wreiddiau ymgripiol, ac mae egin newydd yn cael eu cynhyrchu yn y gwanwyn. Fel arfer maent yn fwy toreithiog ar ffermydd defaid. Mae ysgall i'w cael mewn tir glas agored lle nad oes cystadleuaeth iddynt am nad oes digon o bori pan fo'r ysgall yn tyfu (Mai-Gorffennaf) neu oherwydd gor-bori yn y gaeaf a dechrau'r gwanwyn.

**Rheoli** ysgall:

- dylid **cynnal** ffrwythlondeb da yn y pridd
- wrth ail-hadu, bydd **mynd yn ddyfnach i'r pridd** yn niweidio gwreiddiau ac yn eu gwneud yn wannach
- porwch yn ysgafn yn y gaeaf a'r gwanwyn, gan gynyddu'r gyfradd stocio rhwng Mai a Gorffennaf
- **torrwch dir glas** ar gyfer silwair pan fo'r ysgall ond newydd ddechrau tyfu
- **brigdorrwch y tir glas pori** ddwywaith y flwyddyn er mwyn atal hadu ac fel bod y planhigion yn cael llai o faeth
- defnyddiwch **lyseiddiad** ar ffermydd confensiynol

## DAIL TAFOL

Mae **dail tafol** yn ffynnu mewn priddoedd moel a thir glas agored, gan ddatblygu prif wreiddyn dwfn a chynhyrchu hadau sy'n gallu bod ynghwsg yn y pridd am hyd at 70 mlynedd. Mae dail tafol yn tyfu'n bennaf ar gaeau lle mae slyri'n cael ei wasgar cyn torri'r tir glas ar gyfer silwair ac ar gaeau sy'n cael eu pori gan wartheg yn unig, yn hytrach na gan wartheg a defaid.

Er mwyn atal **hadu**:

- torrwyd y tir glas cyn i'r dail tafol hadu, brigdorrwyd y caeau sy'n cael eu pori cyn i'r dail tafol flodeuo

Er mwyn ei gwneud hi'n anos i ddail tafol **sefydlu**:

- defnyddiwch gnwd gwarchod (barlys gwanwyn) er mwyn sefydlu tir glas sy'n cael ei hau yn y gwanwyn, crëwch fôn trwchus trwy gymell glaswellt i egino o'r gwreiddiau, defnyddiwch y maint priodol o slyri yn gyson, ac osgowch or-sathru

Er mwyn atal planhigion rhag **aeddfedu**:

- defnyddiwch ddefaid i bori tir glas sydd newydd ei sefydlu a thynnwch unrhyw chwyn gwyrdras â llaw

Er mwyn **lladd neu wanhau** prif wreiddiau a hadau:

- compostiwch achles yn drylwyr er mwyn difa hadau; defnyddiwch lllysleiddiad ar ffermydd confensiynol; wrth ail-hadu, tynnwch wreiddiau i'r wyneb er mwyn eu dysychu



Llun (c) IBERS, Prifysgol Aberystwyth

# Rheoli Pori a Pherfformiad Da Byw

Mae glaswellt sy'n cael ei reoli'n dda yn darparu porthiant o **ansawdd uchel** i dda byw. Nod rheoli tir glas yn dda yw cynhyrchu glaswellt o'r ansawdd gorau ynghyd â chynnal ffurfiant y tir glas er mwyn cael y cymeriant gorau o borthiant – a gall beri i dda byw dyfu'n well.

## ANSAWDD Y PORI

Mae tri phrif ffactor yn pennu ansawdd maethol tir glas:

### 1. CYNNWYS SYCH (CS)

- Mae CS isel mewn porthiant yn golygu bod da byw'n bwyta llai
- O dan 12 % CS nid yw anifeiliaid yn gallu bwyta digon o fwyd i ddiwallu eu hanghenion egni a gall y bydd angen porthiant atodol arnynt
- Ffactor amrywiol iawn sy'n dibynnu ar y tymor, twf y glaswellt, rheolaeth, etc

### 2. TREULIADEDD (GWERTH TR) AC EJNI

- Yn newid trwy gydol y tymor pori
- Mae llystyfiant ifanc a deiliog yn cael ei dreulio'n haws ac yn cynnwys mwy o egni na llystyfiant sy'n dechrau brigo neu sy'n cynnwys darnau marw
- Â chysylltiad agos â pherfformiad anifail: gostyngiad o 1 uned Tr = gostyngiad o 5 % yng nghynnydd pwysau da byw

### 3. PROTEIN

- Mae lefelau protein yn gysylltiedig â thwf y glaswellt ac yn cael eu dylanwadu gan faethiad y pridd
- Mae cynnwys protein y glaswellt yn cael ei ddylanwadu gan y cymeriant nitrogen o'r pridd – ac felly'n teimlo effaith y nitrogen sy'n cael ei hau ynghyd â photash, sylffwr a pH y pridd
- Gall lefelau uchel o brotein yn y pridd effeithio'n andwyol ar iechyd anifeiliaid os nad oes digon o egni ar gael ar gyfer diet cytbwys

## RHEOLI ANSAWDD Y TIR GLAS

Un o'r ffyrdd gorau o reoli **ansawdd y tir glas** yw mesur **uchder y llystyfiant**. Gall gwybod faint o borfwyd sydd ar gael a beth yw ei ansawdd olygu gwneud mwy o ddefnydd o laswellt pori a helpu wrth benderfynu ynglŵn â rheoli:

- Pennu'r gyfradd stocio gywir
- Rhori anifeiliaid cywir yn y caeau gorau
- Ymestyn y tymor pori
- Gwneud y defnydd gorau o wrtaith
- Osgoi pori cyfyngedig cyn bod cyfraddau twf da byw'n teimlo'r effaith
- Pryd i roi porthiant atodol

## MESUR UCHDER Y LLYSTYFIANT

Y ffordd hawsaf o fesur uchder y llystyfiant yw defnyddio pren mesur neu dâp mesur hawdd eu darllen.

- Rhowch y pren mesur ar y llawr a mesurwch hyd at frig dail y glaswellt – peidiwch â mesur y blodau na chwyn
- Gwnewch hyn tua deugain o weithiau wrth gerdded ar batrwm W ar draws y cae a hyd nes eich bod yn fodlon fod gennych uchder sy'n gynrychiadol o'r cae. Cymerwch ofal i osgoi tir anwastad a bylchau

Bydd rhai ffermwyr yn cymryd mesuriadau mor aml â dwywaith yr wythnos yn ystod y tymor tyfu brig. Er mwyn cadw'r tyfiant yn drwchus, porwch y caeau yn unol â'r uchder 'ôl-bori' yn nhablau 3.1 a 3.2.

Bydd adladd ar ôl silwair yn ymateb yn wahanol i bwysau pori a dylid cymell egino o'r gwreiddiau cyn mabwysiadu canllawiau ynglŵn ag uchder y llystyfiant.

## UCHDER Y LLYSTYFIANT

Tabl 3.1. GWARTHEG CIG EIDION

Math o Dda Byw	Cyfnod Pori	Pori ar ôl gorffwys ar dir glas heb ei addasu		Di-dor cm	Nodiadau
		Cyn pori cm	Ar ôl pori cm		
<b>Buchod Sugno</b>	Troi allan - Mai	10-14	5-6	5-6	
<b>Yn Ilaetha</b>	Mehefin-Gorffennaf	12-15	7-8	7-8	
	Awst-Tachwedd	12-15	8-9	7-9	Pori i 5cm gydag anifeiliaid sych Tach/Rhag
<b>Buchod Sugno Sych</b>				4	Nodwch y cyflwr. Cynyddwch i 5-6cm ar gyfer buchod tenau; cyfyngwch y pori ar gyfer buchod tew
<b>Gwartheg sy'n tyfu/pesgi</b>	Troi allan - Mai	10-12	5-6	5-6	1-2cm yn fwy ar gyfer gwartheg sy'n pesgi drwy'r tymor
	Mehefin-Gorffennaf	10-14	6-7	6-7	<a href="#">Dylai uchder y llystyfiant fod yn tyfu'n raddol</a>
	Awst- Medi	10-15	7-8	7-8	

Tabl 3.2. DEFAID

Math o Ddefaid	Cyfnod Pori	Pori ar ôl gorffwys ar dir glas heb ei addasu		Di-dor cm	Nodiadau
		Cyn pori cm	Ar ôl pori cm		
<b>Mamogiaid ac ŵyn</b>	Troi allan-Ebrill	8-10	4-5	4	Bwydwch hyd at 4+, cynnydd graddol os oes modd
	Mai-diddefnu	8-10	4-6	4-6	
<b>Mamogiaid sych</b>	Gorffennaf, Awst			3	Gostyngwch i 6cm ar gyfer Sgôr Cyflwr >3
<b>Cyn hwrdda</b>	Medi-Tach	8-10	4-5	6-8	
<b>Ŵyn wedi'u diddefnu i'w pesgi</b>	Gorffennaf-Medi	10-12	5-7	6-8	Caniatewch gynnydd graddol
<b>Ŵyn Stôr</b>	Gorffennaf-dechrau'r cyfnod pesgi	-		4	



## DEWISIADAU DA ERAILL AR GYFER RHEOLI PORI

### DEWISIADAU PORI

- Mae **pori cymysg** gan wartheg a defaid yn gwella ansawdd y tir glas a'r defnydd ohono
- Pan fo anifeiliaid hŵn yn dilyn y rhai iau, mae cyfraddau twf yr anifeiliaid iau yn gwella

### CYFANSODDIAD Y TIR GLAS

Er mwyn cael **maeth o'r ansawdd gorau**

- Gwnewch yn siŵr taw rhywogaethau wedi'u hau (rhygwellt, timothy, meillion, etc.) sydd yn bennaf yn y tir glas o hyd – gan gofio bod gwerth treulidwy rhygwellt yn wellt na gwerth y glaswelltau goresgynnol megis maeswellt penwyn
- Ystyriwch ail-hadu neu dros-hau er mwyn cynnal ansawdd y tir glas
- Mae'n hysbys fod rhygwelltau a gafodd eu bridio ar gyfer lefel uchel o garbohydradau sy'n hydawdd mewn dŵr yn gwella perfformiad da byw

### Y DEFNYDD O FEILLION

- Ffynhonnell dda o borfwyd â chyfran **uchel o brotein**
- Yn cynyddu cymeriant porfwyd ac maent yn cyd-dyfu â glaswellt
- Yn gwella **ffrwythlondeb y pridd** (yn sefydlogi nitrogen) a ffurfiant y pridd
- Yn **cynnwys cyfran uchel o fwynau** – gallant liniaru problemau iechyd mewn da byw (e.e. dera'r borfa)

### DULLIAU MECANYDDOL

- Mae modd brigdorri llystyfiant yn isel (h.y. yn is na'r targed wrth bori) er mwyn cymell egino o'r gwreiddiau a chael llystyfiant mwy trwchus
- Mae brigdorri yn syth cyn pori yn cynyddu CS y porfwyd a chymeriant y da byw
- Mae modd defnyddio ogedi i gael gwared ar rywogaethau glaswelltau goresgynnol (maeswellt rhedegog) a llystyfiant marw



Llun (c) IBERS, Prifysgol Aberystwyth

# Pori cymysg

Mewn cymhariaeth â phori â naill ai wartheg neu ddefaid ar wahân, gall **pori cymysg** â gwartheg a defaid:

- wella y **defnydd** o'r borfa a chynnal **ansawdd y tir glas**
- wella **cyfraddau twf** y da byw
- leihau llwythi **parasitiaid mewnol**

## GWELLA'R DEFNYDD O'R GLASWELLT A'I ANSAWDD

Am fod gan wartheg a defaid flaenoriaethau pori gwahanol, gall pori cymysg:

- Gwella ansawdd y tir glas trwy **leihau'r darnau hynny** o amgylch tail lle bydd anifeiliaid yn gwrthod pori ynghyd â chynyddu cyfran y meillion gwyn
- Arwain at fwy o **ddefnydd o'r glaswellt** (hyd at 15%)
- Bydd cymhareb stocio o 60:40 gwartheg i ddefaid neu ddefaid i wartheg yn rhoi'r manteision gorau



## GWELLA CYFRADDAU TWF Y DA BYW

- Mae modd gwella cynnyrch/ha y da byw â phori cymysg
- Mae modd gwella'r cynnydd pwysau byw mewn defaid neu wartheg neu'r ddau, gan ddibynnu ar y tir glas
- Gall pori gwartheg a mamogiaid gydag **ŵyn** drwy gydol y tymor wella cynnydd pwysau byw'r **ŵyn** pan fo uchder y llystyfiant yn cael ei gadw ar 8-10 cm (ond nid ar uchder o 4-5 cm)

- Gall pori cymysg drwy gydol y tymor tyfu olygu cynnydd ym mhwsau byw'r **ŵyn**, mewn cymhariaeth â phori bob yn ail (gwartheg yn pori ddechrau'r tymor, ac yna **ŵyn** ar ôl iddynt gael eu diddyfnu)

## LLEIHU PARASITIAID MEWNOL

Cychwynnch **gynllun rheoli** bob tro er mwyn lleihau parasitiaid mewnol yn eich da byw trwy ymgynghori â'ch milfeddyg.

- Fel arfer, bydd defaid a gwartheg yn cael eu heintio gan rywogaethau gwahanol o barasitiaid
- Mae pori cymysg i leihau parasitiaid mewnol yn seiliedig ar strategaeth deneuo – e.e. os yw **ŵyn** ifainc yn pori gyda gwartheg – bydd y lefelau heintiad yn y borfa yn isel
- Mae pori gwartheg a defaid yn golygu llai o barasitiaid mewnol mewn **ŵyn** mewn cymhariaeth â phori â defaid yn unig drwy gydol y tymor
- Mae angen ystyried y sefyllfa wrth bori defaid gyda gwartheg ifainc (dan 12 mis oed) am y gall Nematodirus heintio defaid a lloi ifainc

## SUT I LEIHU'R RISG O BARASITIAID I WŶN AR WAHANOL DIROEDD PORI

**Wŷn** a mamogiaid sy'n llaetha sy'n bennaf gyfrifol am halogi'r borfa ag wyau parasitiaid.

- Rhannwch y tymor pori'n ddwy ran – fel arfer trwy ddefnyddio 30 Mehefin yn fan canol i ddefaid yn y DG
- Os yw **ŵyn**, mamogiaid sy'n llaetha, geifr neu wartheg ifainc (dan 12 mis oed) wedi pori'r tir y flwyddyn flaenorol – rhaid ei ystyried yn dir pori â risg uchel tan ganol y tymor oherwydd y risg o Nematodirus
- Yn ail hanner y tymor pori, mae'r parasitiaid ar diroedd pori'n deillio o'r flwyddyn gyfredol
- Os cafodd tiroedd eu pori gan wartheg llawn-dwf, eu defnyddio ar gyfer porfwydydd neu ar gyfer gwair neu silwair yn ystod hanner cyntaf y tymor pori, bydd llai o risg o barasitiaid ar y tiroedd hynny yn yr ail hanner y tymor

Mae mwy o wybodaeth am fanteision pori cymysg i'w ganfod yn llyfryn HCC.

# Gwneud silwair, gwywair a gwair

## SILWAIR

Gwneud silwair yw'r ffordd effeithlon o gadw porfwyd ffres a diogelu cyfran uchel o werth maethol y porfwyd gwyrdd. Mae'r broses eplesu yn digwydd o dan amodau anaerobig (dim ocsigen) ac mae'n cael dylanwad sylweddol ar ansawdd y silwair a gynhyrchir. Y nod yw eplesu'r cnwd a gafodd ei silweirio cyn gynted ag y bo modd er mwyn cynhyrchu cymaint o asid lactig ag y bo modd, lleihau'r pH yn gyflym ac atal y protein rhag dadelfennu.

Wrth wneud silwair, gwnewch yn siŵr eich bod yn diwallu gofynion Croesgydymffurfio a'r 'Codau Ymarfer Amaethyddol Da'.

## SILWAIR GLASWELLT+ MEILLION

Silwair glaswellt o dir glas sy'n cynnwys rhygwellt yn bennaf yw'r prif borfwyd sy'n cael ei gadw ar gyfer bwydo yn ystod y gaeaf ar ffermydd confensiynol, tra bo ffermydd organig yn dibynnu ar silwair glaswellt+ meillion neu silwair meillion coch. Mae tiroedd pori parhaol hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig ar lawer o ffermydd. Cnydau eraill a ddefnyddir i wneud silwair yw cnydau grawn cyflawn ac indrawn.

Mae silwair o ansawdd da yn flasus ac yn golygu cymeriant uchel a chyfraddau twf da a llai o ddefnydd o ddwysfwydydd. Fodd bynnag, mae ansawdd silwair yn aml yn amrywio'n fawr (Tabl 5.1) o fferm i fferm a hefyd o gladd i gladd ar yr un fferm. Mae silwair wedi'i wneud yn wael ac o ansawdd gwael nid yn unig yn amharu ar berfformiad yr anifail ond mae hefyd yn costio cymaint i'w gynhyrchu â silwair sydd wedi eplesu'n dda ac sydd o ansawdd da.

Tabl 5.1. Arweiniad i fathau o eplesu

Eplesiad	Lliw'r silwair	Arogl	Teimlad
Da	Llachar. Gwyrdd-felyn golau	Fel ffrwythau neu finegr	Solet. Nid yw'n hawdd rhwbio'r feinwe feddal oddi ar y ffibrau
Boddhaol	Brown golau	Dim arogl cryf	Gweddol solet
Gwael (Bwtyrig)	Gwyrdd olewydd	Cryf ac annymunol	Fel llysnafedd - yn hawdd rhwbio'r feinwe feddal oddi ar y ffibrau
Wedi gorboethi	Brown i frown tywyll	Caramel/tybaco	Sych a brau iawn



## PWYNTIAU ALLWEDDOL I GYNORTHWYO GWAITH YN Y CAEAU

- peidiwch â gwasgar [slyri](#) yn hwyr yn y caeau er mwyn ceisio osgoi halogi pan fo'r caeau'n cael eu torri. Heuwch N-gwrtaith o leiaf chwe wythnos cyn eich bod yn bwriadu torri glaswellt. Ar dir glas sy'n cynnwys glaswellt a meillion a dyfwyd heb [N-gwrtaith](#) yn y gwanwyn, [bydd twf arafach y meillion yn y gwanwyn](#) yn golygu bod llai o brotein yn y cynydu sy'n cael eu torri'n gynnar
- mae [cnydau deiliog](#) o well ansawdd (gweler tabl 5.2) ond â llai o gynnwys sych
- torrwrch dir glas [heb chwyn](#) yn unig
- gall cynyddu [nifer y toriadau silwair](#) y tymor olygu gwell ansawdd ond bydd hefyd yn golygu llai o silwair
- wrth [dorri](#) glaswellt gadewch o leiaf 5 cm o adladd er mwyn cymell aildyfiant. Wrth dorri meillion coch ceisiwch osgoi gwneud difrod i [gorun](#) y planhigion oherwydd gall hyn amharu ar boblogaethau a chynnyrch y planhigion
- o fewn awr i dorri, [gwasgarwch y cnwd](#) yn gyson er mwyn ei helpu i wywo
- osgowch [halogi'r cnwd â phridd](#) wrth ei wasgar i sychu ac wrth ei racanu
- gadewch i gnydau gwlyb [wywo](#) am hyd at 24 awr
- gwnewch yn siŵr fod hyd y [mân-doriad](#) yn 2-2.5 cm
- gall [planiad](#) da wella'r eplesiad a pherfformiad yr anifeiliaid

Gall [colledion uchel](#) ddigwydd yn ystod torri, cludo, silweirio, a bwydo cnydau glaswellt a chnydau glaswellt + meillion (gweler Tabl 5.3). Gyda chnydau glaswellt + meillion gwyn, gall y colledion yn y cae fod yn uwch trwy golli dail meillion gwerthfawr os yw cnydau wedi gor-wywo â chyfran uchel o gynnwys sych yn cael eu silweirio.

**Tabl 5.2. Arweiniad i effaith cyfnod twf y glaswellt ar y gwerthoedd egni a phrotein**

Cynnwys dail a choesyddau	EM (mj/kg CS)	% PA
Deiliog iawn – dim coesyn i'w weld	12	18
Deiliog – peth coesyn yn bresennol	11	16
Deiliog â rhai coesyddau blodeuol	10	14
Cymharol ddeiliog â nifer fawr o goesyddau blodeuol yn ymddangos	9	12
Cyfran uchel o goesyddau – y glaswelltau ar fin blodeuo	8	10

**Tabl 5.3. Colledion posibl wrth wneud silwair**

Y camau wrth gadw a bwydo silwair	colledion posibl (%)
Colledion maes wrth gynaeafu	2-12
Colledion seilo oherwydd resbiradu ac eplesu	5-18
Colledion trwy elifion silwair	0-8
Colledion wrth fwydo oherwydd dirywiad aerobig	1-10



### PWYNTIAU ALLWEDDOL WRTH SILWEIRIO MEWN CLADD:

- **glanhewch** y cladd cyn ei lenwi
- gwnewch yn siŵr fod y pibellau draenio a'r tanc casglu elifion yn gweithio'n iawn ac â digon o le. Gall **elifion** silwair achosi llygredd difrifol
- llenwch y clamp yn **gyflym**, gan daenu'r cnwd yn gyson a'i gywasgu'n dda
- pan fo angen llenwi'r cladd dros gyfnod o ddeuddydd, rhowch len dros y cladd ar ddiwedd y diwrnod cyntaf er mwyn cyfyngu ar y resbiradu a chysylltiad â'r aer
- rhowch lenni dros yr ochrau a dwy len blastig i orchuddio a selio'r cladd a gwnewch yn siŵr fod yna amodau anaerobig (dim ocsigen) yn y seilo
- **seliwch** y cladd yn dda a rhowch bwysau ar y llenni er mwyn gwneud yn siŵr fod y llen blastig a'r silwair yn dynn wrth ei gilydd
- pan fo'r tywydd yn wael gall y bydd cynydau sy'n wlyb a heb lawer o siwgr elwa os yw **atchwangyn â chyfran uchel o siwgr** (e.e. betys siwgr â thriogl) yn cael ei ychwanegu pan fo'r cladd yn cael ei lenwi



Llun (c) IBERS, Prifysgol Aberystwyth

### PWYNTIAU ALLWEDDOL WRTH YSTYRIED BYRNAU MAWR:

Gall byrnau mawr fod yn ddewis addas yn lle silweirio mewn cladd

#### Manteision:

- llai o wariant cyfalaf a llai o gostau storio
- llai o golledion aerobig a cholledion cynnwys sych (10% vs >20%)
- mae gwneud ychydig ar y tro'n golygu bod modd torri'r gwahanol gnydau ar yr adeg orau
- llygredd yn llai tebygol pan fo byrnau â chyfran uchel o gynnwys sych yn cael eu gwneud
- mae modd gwerthu byrnau nad oes eu hangen neu gellir eu defnyddio'n borthiant wrth gefn yn ystod hafau sych

#### Anfanteision:

- yn anaddas ar gyfer cynydau gwlyb
- y cynaeafau'n arafach
- y byrnau'n gallu amrywio o ran ansawdd
- yn anos eu trafod a'u bwydo â pheiriannau ar rai ffermydd
- yn fwy tueddol o gael eu difrodi wrth gael eu trafod a'u storio

### PWYNTIAU ALLWEDDOL WRTH WNEUD BYRNAU MAWR:

- mae'n well silweirio cynydau â 35+% o gynnwys sych
- defnyddiwch blaniad i wella'r eplesu
- lapiwch y byrnau cyn gynted ag y bo modd ar ôl byrnu
- defnyddiwch gymaint o haenau plastig ag sy'n cael eu hargymell er mwyn sicrhau eplesiad da ac atal halogi gan Listeria
- storiwch y byrnau ar wyneb addas ac yn ddigon pell oddi wrth gysiau dŵr
- tynnwch unrhyw silwair sydd wedi llwydo neu ei ddifetha cyn ei roi i'r anifeiliaid

**DEFNYDDIO SILWAIR YN WELL:**

- dadansoddwch y silwair cyn agor y cladd/byrnau mawr er mwyn darganfod yr ansawdd
- cadwch **wyneb y cladd yn lân** – os oes modd, defnyddiwch **beiriant crafangu** yn hytrach na blaenlwythwr a pheidwch â chyfwrdd â silwair na fwriedir ei ddefnyddio'r diwrnod hwnnw
- er mwyn gwneud yn siŵr fod cymeriant yr anifeiliaid yn dda, osgowch **gystadleuaeth** rhwng anifeiliaid lle maent yn bwydo
- bydd cynnig **dewis o fwy nag un porfwyd** (e.e. silwair glaswellt + silwair cnwd cyflawn) yn cynyddu'r cymeriant

**SILWAIR GRAWN CNWD-CYFLAWN**

Mae modd cynaeafu a silweirio **cnydau grawn** (barlys, ceirch, gwenith) 3-4 wythnos cyn eu bod yn barod ar gyfer y combein, pan fo'r **cynnwys sych yn 35-45%**, er mwyn darparu porfwyd blasus i'w fwydo gyda silwair glaswellt. Am fod grawn barlys yn caledu ychydig yn gynt, dylid torri'r cnwd hwn pan fo'r cynnwys sych yn 35-40%.

Mae'r cnydau'n cael eu torri â **hyd mân-doriad** o 2 cm pan fo'r grawn yn dal i fod yn weddol feddal – fel toes neu gaws cheddar meddal. **Gall y gwerth egni amrywio o 9-10 MJ/kg CS a'r cynnwys protein 9-11%**. Mae gan gnydau gwenith a barlys werth egni uwch na cheirch.

**Manteision silwair grawn cnwd-cyflawn:**

- mae modd **tyfu grawnfwydydd yn helaeth** naill ai fel prif gnwd neu fel cnwd gwarchod er mwyn sefydlu tir glas newydd yn y gwanwyn
- **un cynhaeaf** yn Awst/Medi
- cyfran uchel o gynnwys sych a dim **problemau elifion** wrth silweirio
- gwell **cymeriant** porthiant
- porfwyd â **chyfran is o brotein** sy'n **ategu** silwair meillion â chyfran uwch o brotein

**Anfanteision silwair grawn cnwd-cyflawn:**

- **Mewn tywydd cynnes gall y dyddiad cynaeafu fod yn hollbwysig** am fod cynnwys sych y cnwd yn gallu cynyddu fesul 2% uned y dydd
- gall y **cywasgu** mewn cladd fod yn anos gyda chnydau â chyfran uchel o gynnwys sych – mae silweirio mewn 'brechdan' â silwair glaswellt sydd â llai o gynnwys sych yn un dewis
- oni bai fod grawnfwydydd cnwd-cyflawn yn cael eu silweirio mewn claddau cul neu fynau mawr, gall y silwair boethu a **difetha**

- cynnwys protein isel oni bai fod y grawnfwydydd yn:
  - cael eu tyfu **yn gymysg** â phys neu ffacbys
  - cael eu bwydo ar y cyd â phorfwyd meillion
- y silwair yn denu **fermin**, yn enwedig mewn byrnau mawr

**Mae modd gwella'r ansawdd trwy:**

- tyfu cymysgedd o **godlysiau + grawnfwydydd**, gan gynnwys pys/barlys, ffacbys/ceirch
- codi'r uchder torri wrth gynaeafu i wella cymhareb y grawn i'r gwellt pan fo digon o silwair glaswellt wedi'i wneud yn barod neu os yw gwerth egni silweiriau eraill yn isel
- osgoi cynaeafu'n hwyr oherwydd gall **na fydd yr anifeiliaid yn treulio'r grawn aeddfetaf**



Llun (c) IBERS, Prifysgol Aberystwyth

## GWYWAIR

Mae gwywair yn borthiant blasus sydd â chyfran uchel o gynnwys sych.

- Mae gwywair yn borthiant **llai asidig** wedi epleu â pH o 5.5 neu fwy
- Mae gwywair o ansawdd da yn dibynnu ar **eplesiad cyflym** ac mae modd defnyddio planiad wrth fyrnu
- Caiff y glaswellt ar gyfer gwywair ei dorri pan fo'n aeddfetach (**50-60% CS**) nag ar gyfer silwair, ond pan nad yw mor dreuliadwy ac aeddfed ag ar gyfer cynydau o wair
- Caiff y glaswellt ei wasgar i'w sychu a'i racanu er mwyn hwyluso'r gwywo. Gall y **colledion yn y cae** fod yn is mewn cymhariaeth â chnydau gwai. Bydd mân-dorri cyn byrnu yn hwyluso'r eplesiad
- Mewn cymhariaeth â silwair byrnau mawr, gall byrnau gwywair fod yn fwy **tueddol** o **ddioddef difrod aerobig** am eu bod yn llai cywasgedig ac am fod ganddynt gyfran uwch o gynnwys sych

## GWAIR

Mae **gwair** wedi'i wneud yn dda yn **borthiant heb asid** sy'n flasus ac sy'n gallu gwella cymeriant anifeiliaid sy'n pori ar borfwyd â chyfran isel o gynnwys sych neu sy'n bwydo ar silweiriau sydd â chyfran isel o pH a chynnwys sych.

Mae oedi cyn torri tir glas sydd ag amrywiaeth eang o rywogaethau, ar gyfer gwair yn hytrach na silwair, **o fudd i'r amgylchedd** pan fo anifeiliaid yn cael eu symud yn ystod y tymor pori fel y gall y planhigion dyfu, blodeuo a hadu cyn i'r cnwd gael ei dorri. Cysylltwch a'ch swyddog cynllun amaeth-amgylchedd am gyngor ynglŵn â'r rhan sydd gan wair i'w chwarae wrth reoli tiroedd pori amgylcheddol sensitif. Ceir gwybodaeth bellach ar gynlluniau amaeth-amgylchedd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

Prif **anfantais** gwneud gwair yn hytrach na silwair yw gorfod dibynnu ar gyfnod hirach o dywydd da er mwyn gwneud yn siŵr fod y cnwd a dorrwyd yn sychu i gael cynnwys sych o >82%. Hefyd, mae yna bosibilrwydd o **golledion uwch yn y cae** ac y bydd ei werth fel porthiant yn dirywio oherwydd cyfnod sychu hirach. Yn ogystal, mae mwy o waith i'w wneud â pheiriannau ac mae angen mwy o drafod ar y cnwd.



# Porthiant dros y gaeaf a phori estynedig

Mae modd defnyddio llai o silwair dros y gaeaf a gwario llai ar ddwysfwydydd a chadw anifeiliaid dan do naill ai drwy dyfu cnydau porfwyd i ansawdd uchel neu drwy ymestyn y tymor pori ar laswellt. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr na fydd gweithredu'r naill system neu'r llall ar y fferm yn torri gofynion croesgydymffurfio a'i fod yn gydnaws â'r math o bridd, y math o anifeiliaid sy'n pori a hefyd unrhyw ofynion ychwanegol o ran llafur ac adnoddau eraill.

## CADW ANIFEILIAID DROS Y GAEAF DRWY BORI CNYDAU PORFWYD

Mae **cnydau porfwyd** yn fwydydd blasus sy'n cynhyrchu naill ai egni uchel (gwreiddlysiau), protein uchel (rêp porfwyd) neu fwyd sy'n cynhyrchu cyfran uchel o egni a phrotein (cêl).

Mae modd tyfu cnydau porfwyd i ddarparu porfwyd ychwanegol ar gyfer:

- gwartheg sy'n bwyta silwair
- defaid sy'n pori glaswellt

Mae modd tyfu **amrediad o gnydau porfwyd** – cêl, rêp, maip sofr, maip ac erfin gaeaf – ar lawer o ffermydd da byw yng Nghymru. Rhaid i gnydau sy'n cael eu pori o ganol i ddiwedd y gaeaf allu wrthsefyll tywydd gaeafol.

Gellir **hau** cnydau porfwyd o ddiwedd Ebrill tan fis Hydref i'w **pori** o fis Medi tan fis Mawrth. Bydd hau'n gynharach yn golygu cynnyrch uwch o gnydau deiliog a gwreiddlysiau.

Bydd cêl sydd â **chynnyrch bwytdwy** o 6.0 t CS/ha yn rhoi 50 diwrnod o bori i naill ai 20 o fuchod neu 28 o fustych. Bydd erfin â chynnyrch bwytdwy amcangyfrifedig o 5.5 t CS/ha yn rhoi 50 diwrnod o bori i 90 o ŵyn.



Wrth werthuso **effaith amgylcheddol** tyfu a phori **cnydau porfwyd**

- gwnewch yn siŵr fod y cnwd a ddewisir yn addas ar gyfer unrhyw **gynllun amgylcheddol** sy'n berthynol i'r fferm
- dewiswch gae â phriddoedd ysgafn sy'n draenio'n dda
- darperwch **lain o laswellt** wrth ymyl y cnwd porfwyd lle gall yr anifeiliaid orwedd a phori
- peidiwch â **gor-stocio**
- cyn dechrau'r cyfnod pori ac er mwyn ceisio atal **cywasgu'r pridd** symudwch y byrnau mawr o silwair, gwellt neu wair sydd eu hangen ar gyfer bwydo i leoliad wrth ymyl y man pori
- ystyriwch **ddefnyddio lleiniau** o laswellt fel tramwyfeydd a manau rhagod yn y caeau lle bydd porfwyd yn cael ei bori yn yr hydref/gaeaf
- dewiswch safle addas ar gyfer bwydo **silwair** neu borfwydydd eraill mewn bwydwr cylch/ trelar bwydo. Symudwch y bwydwr yn rheolaidd er mwyn atal gor-sathru. Peidiwch â chaniatáu defnydd gormodol o gerbydau yn y cae

Mae **hau'n uniongyrchol â dril** i mewn i laswellt a gafodd ei ddysychu gan lysleiddiad yn osgoi ymyrryd â'r pridd ac yn darparu wyneb cadarnach ar gyfer pori, ond nid yw'n addas gwneud hynny ar ffermydd organig nag ar rai sy'n cymryd rhan mewn rhai cynlluniau amgylcheddol.

**Dadansoddwch y pridd** er mwyn darganfod y statws P a K a gwnewch yn siŵr beth yw'r gofynion sy'n cael eu hargymell ar gyfer y math o gnwd sy'n cael ei dyfu. Mae gofynion N hefyd yn amrywio o gnwd i gnwd ac yn cael eu dylanwadu gan ansawdd nitrogen y pridd o'r cnwd blaenorol, yn enwedig y codlysiau. Gwnewch yn siŵr fod gan y pridd pH digonol o >5.6 er mwyn sicrhau bod y cnwd yn tyfu'n dda a hefyd er mwyn lleihau'r perygl o glwy'r gwraidd yn y cnydau brasica.

## RHEOLI'R PORI

- Bydd **llainbori** a defnyddio ffens gefn yn golygu bod y cnwd yn cael ei ddefnyddio'n well, yn atal gwastraff ac yn lleihau gor-sathru
- er mwyn osgoi **problemau treuliol**, cyflwynwch yr anifeiliaid i'r cnwd yn raddol dros gyfnod o ddeng niwrnod. Caniatewch i'r anifeiliaid lenwi eu boliau ar fwydydd eraill (e.e. silwair) cyn dechrau pori cnydau porfwyd
- cyfyngwch ar y cymeriant o'r cnwd porfwyd i **<50% o'r holl ddiel** er mwyn osgoi'r perygl o broblemau iechyd a allai godi
- darperwch **gyflenwad cyson** o borfwyd ffres bob dydd er mwyn osgoi amrywiadau yng nghyfansoddiad y diet cyflawn



- cadwch **ddwysedd stocio** priodol sy'n seiliedig ar amcangyfrif o gymeriant y porfwyd sy'n cael ei bori, y silwair a'r bwydydd eraill
- mae gan y cnydau porfwyd gwreiddiog a deiliog gyfran isel o gynnwys sych a ffibr
- mae silwair glaswellt neu rawn cnwd-cyflawn wedi'i wneud yn dda mewn byrnau mawr yn darparu **porthiant blasus a sychach** yn ogystal â ffibr hanfodol. Bydd gwair a gwellt o ansawdd da yn gwella'r cynnwys sych a'r ffibr yn y diet
- darganfyddwch werth maethol y porfwydydd ffres ac wedi'u cadw a darperwch **atchwanegyn mwynau** sy'n briodol ar gyfer y math o anifeiliaid sy'n pori. Bydd cynnwys protein cêl yn amrywio o 12 i 22% gan ddibynnu ar gyfnod y twf a'r gymhareb ddail i goesyn a'r egni metaboladwy o 11 i 13 MJ/kg o gynnwys sych. Gall y bydd porfwydydd eraill yn brin o egni neu brotein
- gall y bydd tywydd gwlyb ac oer yn peri llai o gymeriant, a bydd tywydd oer a gwyntog yn achosi ffactor oeri uwch ac yn cynyddu gofynion egni porthiant yr anifeiliaid. Gall y bydd angen porthiant ychwanegol yn ystod y cyfnodau hyn
- gwnewch yn siŵr fod yr anifeiliaid yn cynnal y **cyflwr corff** priodol yn ystod y cyfnod pori

lechyd anifeiliaid – wrth gadw anifeiliaid yn yr awyr agored yn hytrach nag o dan do dros y gaeaf, mae llai o berygl o niwmonia, ond gall gynyddu'r risg o lyngyr mewnlol a llyngyr yr iau. Bydd archwilio'r traed cyn dechrau pori'r cnydau porfwyd a chynnal dwysedd stocio priodol yn lleihau'r perygl o broblemau cloffni. Trafodwch unrhyw broblemau posibl â'ch milfeddyg.

## PORI ESTYNEDIG

Mae ymestyn y tymor pori trwy ohirio pori'r tir glas sy'n cynnwys glaswellt neu feillion gwyn tan ddiwedd yr hydref yn rhoi cyfle i wario llai ar fwydydd (gan gynnwys y gost o wneud silwair).

Mae pori estynedig yn cael ei ddefnyddio'n helaeth erbyn hyn mewn systemau godro lle bydd y buchod yn pori am 2-3 awr y dydd. Gall y system hon fod yn gost-effeithiol hefyd ar rai ffermydd cig eidion sydd wedi'u gosod allan yn addas, gan gynnwys mynediad i'r ardal bori a digon o weithwyr i droi'r gwartheg allan i bori ac i symud y ffensys trydan bob dydd.

Mae'r system yn dibynnu ar dyfu digon o laswellt wrth gefn ddiwedd yr haf a dechrau'r hydref trwy gau padogau neu gaeau ddiwedd Awst/dechrau Medi yn hytrach na chael toriad arall o silwair. **Mae hyd y cyfnod pori** yn cael ei ddyllanwadu gan:

- faint o laswellt sydd ar gael
- cyflwr y tir a'r tywydd

Caiff **ffensys trydan** eu defnyddio i lainbori'r tir glas a hefyd i ddarparu ffens-gefn i atal y gwartheg rhag mynd ar y tir a gafodd ei bori eisoes.

Dylid ystyried y gallai'r tir gael ei **or-sathru** pan fo system pori estynedig yn cael ei defnyddio. Yn ogystal â'r effaith ar yr amgylchedd, bydd y cynnyrch o'r manau a gafodd eu gor-bori neu eu gor-sathru yn llai o lawer yn ystod y tymor pori canlynol, a bydd hyn yn arwain at gostau ychwanegol oherwydd bydd angen gwella'r wyneb neu ailhadu er mwyn gwneud yn siŵr fod yna ddigon o laswellt ar gael. Er mwyn osgoi'r problemau hyn:

- defnyddiwch dir glas ar **briddoedd ysgafnach wedi'u draenio'n dda**
- dewiswch dir glas lle mae'r llystyfiant yn **drwchus wrth y bôn**, ac osgowch dir glas agored
- cadwch **ddwysedd stocio** priodol er mwyn osgoi gor-bori
- **osgowch** bori yn ystod cyfnodau o law trwm a phan fo'r tir yn wlyb

Hefyd, er mwyn ymestyn y tymor pori yn yr hydref, gellid troi allan yn gynharach yn y gwanwyn mewn rhai ardaloedd ac mewn caeau sy'n wynebu tua'r de trwy ailhadu â **glaswelltau cynnar**, gan gynnwys rhygwellt lluosflwydd croesryw a chynnar. Neu fe ellid hau'r glaswelltau hyn yn uniongyrchol i'r tir glas sy'n bodoli yn ystod yr hydref. Dewis arall yw rhyg pori - ailhadu neu hau'n uniongyrchol â dril.

Mae gwybodaeth bellach ynglŵn â defnyddio cnydau porfwyd a system pori estynedig ar gael yn nhafenni ffeithiau Cyswllt Ffermio, Rheolaeth yn y Gaeaf, sydd ar gael gan HCC.

# Porfwydydd gwahanol

Mae modd defnyddio porfwydydd heblaw glaswellt i wella cyfraddau cymeriant a thwf mewn da byw, a gallant olygu gorfod dibynnu llai ar ddwysfwydydd yn borthiant atodol. Gallant hefyd ddarparu porfwyd pan nad yw'r glaswellt yn tyfu cystal.

## SICORI

Mae sicori yn gnwd llydanddail (yn para am 2-6 blynedd) â phrif wreiddyn dwfn.

- Yn gwella cyfraddau twf  $\hat{w}$ yn – gallwch ddisgwyl dros 250g y dydd
- Yn gwella cymeriant heb achosi chwydd y boten
- Cynnyrch uchel ac o ansawdd maethol da ( 25 % protein amrwd ac EM o 10.4) ond cyfran isel o gynnwys sych (tua 8 - 12 %)
- Yn gallu goddef sychdwr – llai o berygl o brinder porfwyd yn ystod haf sych
- Yn ffynhonnell ddefnyddiol o borfwyd cartref ar gyfer pesgi  $\hat{w}$ yn wrth i laswellt dyfu'n arafach ddiwedd yr haf-yr hydref
- Yn cynnwys mwy o fwynau ac elfennau hybrin na glaswellt
- Mae iddo nodweddion gwrthlyngyrol – yn lleihau parasitiaid mewnol mewn  $\hat{w}$ yn

## MATHAU A SUT I'W SEFYDLU

Bob tro dewiswch fath lluosflwydd cydnabyddedig o sicori

- Heuwch rhwng Mai a Mehefin - pan nad oes perygl o rew, a all ladd y cnwd wrth iddo egino
- Argymhellir hau 2.0 kg yr erw os ydych yn ei hau ar ben ei hun neu 0.5kg yr erw gyda glaswellt/meillion
- Bydd hau'n fwy trwchus ar gyfer tiroedd pori dan reolaeth organig yn helpu i reoli chwyn
- Gall oddef amrediad eang o pH yn y pridd ond mae'n well ganddo 5.6 – 6.0. Mynegrif P a K y pridd: 2
- Dylid drilio'r hadau 1 cm o dan y pridd neu eu gwasgaru oherwydd ni fydd yr egino cystal os cânt eu gorchuddio a dros 1cm o bridd
- Defnyddiwch 45 kg / ha o nitrogen ddechrau'r gwanwyn a rhagor wedyn ar ôl pori. Mae'n ymateb yn dda i nitrogen



Fel arfer mae modd pori sicori tua 8 wythnos ar ôl ei hau – yr uchder gorau ar gyfer pori yw 25-30cm

- Yn ddelfrydol, dylid pori mewn cylchdro gyda chyfnod gorffwys o dair wythnos. Neu gellir llainburi gan ddefnyddio ffens gefn. Mae hyn yn ysgogi dail i dyfu (ac yn lleihau'r risg o blanhigion yn mynd i had) ac mae'n atal llwyr-bori dethol os yw'n cael ei hau ynghyd â glaswellt/meillion
- Bydd un erw o sicori wedi'i reoli'n dda yn cynnal 20 o  $\hat{w}$ yn am 30-40 diwrnod
- Mae angen gofal rhag gwneud niwed i gorun y planhigyn – osgowch bori trwm ddiwedd yr hydref. Yn y gaeaf, porwch yn ysgafn, neu, yn well byth, gadewch y tir heb ei bori
- Peidiwch â chaniatáu i'r planhigion dyfu'n uwch na 30cm oherwydd nid yw ansawdd y porfwyd na'r cymeriant cystal – porwch hyd at 5cm rhwng cylchdroadau a brigdorrwch y cnwd os oes angen

## PORI

### MEILLION COCH

Mae'r porfwyd hwn yn well ar gyfer **silwair** – er ei fod yn rhoi pori o ansawdd uchel i wŷn sy'n pesgi neu wartheg cig eidion. Mae'n gnwd tymor canolig sy'n bara am 2-3 blynedd.

#### Mae meillion coch

- yn borfwyd sy'n rhoi **cnwd da** â **chyfran uchel o brotein** – sy'n golygu nad oes rhaid defnyddio cymaint o ddwysfwydydd yn borthiant atodol i silwair dros y gaeaf
- yn sefydlogi nitrogen – llai o angen dibynnu ar wrteithiau N
- yn gwella ffurfiant y pridd
- yn addas ar gyfer tan-hadu â barlys gwanwyn

### MATHAU A SUT I'W SEFYDLU

Dewiswch fath o feillion coch sy'n addas ar gyfer yr amodau ar eich fferm (e.e. Britta ar gyfer tir uchel)

Cyfraddau hau:

- tua 5-6 kg / erw ar gyfer tir glas pur
- tir glas cymysg: 3 kg/erw o feillion coch +9 kg/erw o rygwellt Eidalaid neu groesryw.
- wedi'u tan-hadu â barlys: 3kg/erw o feillion coch + 8kg/erw o rygwellt
- pH y pridd o 6.0 - 6.5, mynegrif P a K: 2+
- Peidiwch â'u tyfu drwy'r amser yn yr un cae – caniatewch ysbaid o 6 blynedd

### DEFNYDDIO MEILLION COCH

#### Silwair

Dros gyfnod o dair blynedd gall tir glas glaswellt/meillion coch gynhyrchu 9-15 t CS/y flwyddyn ac ansawdd nodweddiadol y silwair yw: 14 -19% PA, EM o 10-11, amonia-N < 5 %.

- Gall gymryd 3 - 4 toriad y flwyddyn, ond bydd nifer y toriadau yn cael effaith ar faint ac ansawdd y cnwd
- Caniatewch 6-8 wythnos rhwng pob toriad ar gyfer silwair
- Silweiriwch pan fo'r cynnwys sych yn 25 - 35% er mwyn osgoi colledion yn ystod gwywo (24-36 awr)
- Os oes gormod o wywo bydd y dail yn dryllio ac ni fydd ansawdd y porthiant cystal
- Defnyddiwch blaniad silwair er mwyn gwneud yn siŵr o eplesiad cyflym



#### Pori

Pan fo dau doriad o silwair meillion coch yn cael eu cymryd, gall yr adladd roi pori o ansawdd i wŷn sy'n pesgi neu wartheg cig eidion. Fodd bynnag:


- Gall achosi chwydd y boten – gwnewch yn siŵr nad yw'r anifeiliaid yn newynog pan gânt eu troi allan i bori
- Gall achosi anffrwythlondeb – peidiwch â gadael i famogiaid magu bori meillion coch am chwe wythnos cyn ac ar ôl cael hwrdd
- Peidiwch â phori'r tir â defaid dros y gaeaf – nid yw'r meillion yn para cystal wedyn

## Ansawdd y tir glas a'r cynnyrch


Mae gwella **ansawdd** cynhyrchion anifeiliaid yn bwysig o ran diwallu gofynion newidiol y defnyddwyr sy'n ymfyn bwyd sy'n ddiogel, iach, olrheiniadwy, yn gyson dda i'w fwyta, yn cynnig amrywiaeth ac yn hwylus. Hefyd, mae'n bwysig o ran cael **cynnyrch sy'n wahanol**, bod yn fwy **cystadleuol** ac **ychwanegu gwerth**.

Mae astudiaethau yn ddiweddar ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi bod yn ystyried ffyrdd o wella gwerth maethol cig. Mae'r astudiaethau hyn wedi canolbwyntio ar fraster ac, yn benodol, ar gyfleoedd i gael cyfradd uwch o frasterau fel **asidau brasterog omega-3**, oherwydd gwyddys eu bod o **les** i iechyd pobl. Mae'r asidau brasterog omega-3 pwysig yn cynnwys asid alffa linolenig (C18:3n-3), asid eicosapentaenoig (EPA), asid docosapentaenoig (DPA) ac asid docosahecsaenoig (DHA).

Mae glaswellt (ffres ac wedi'i gadw'n silwair) yn cynnwys cyfran uchel o asid linolenig. Mae asidau brasterog eraill yn cynnwys asid linolenig (C18:2n-6) ac asid palmitig (C16:0). O'i gymharu a bwydo anifeiliaid a chyfran uchel o ddwysfwydydd, mae gan anifeiliaid sy'n bwydo ar laswellt fwy o asidau brasterog omega-3 yn eu cig. Mae bwyta glaswellt am gyfnodau hirach yn arwain at lefelau uwch o asidau brasterog omega-3 yn y cig.



**Ffigur 8.1 Cyfansoddiad asidau brasterog mewn glaswellt**



**Ffigur 8.2 Effaith dwysfwydydd mewn cymhariaeth â bwydo ar laswellt ar gyfansoddiad asidau brasterog mewn cig eidion**

Mae'r cwsmer yn rhoi pwyslais ar y **lliw** ac **oes-silff** wrth ystyried ansawdd y cig. Mae diet nid yn unig yn effeithio ar gyfansoddiad y braster ond mae hefyd yn cael dylanwad pwysig ar y lliw a'r oes-silff. Mae bwyta glaswellt mewn cymhariaeth â bwyta dwysfwydydd, nid yn unig yn gwella cynnwys braster amlannirlawn y cig, ond mae hefyd yn golygu bod llai o newidiadau ocsidiol yn digwydd yn y siop, ac mae hynny'n golygu bod y cig yn cadw'i liw yn well. Mae hyn yn berthynol i drosglwyddo **fitamin E** llesol o'r glaswellt i'r cig. Dangoswyd bod gan gig eidion o anifeiliaid a gafodd eu bwydo ar laswellt oes-silff sydd 4.5 diwrnod yn hirach na chig eidion o anifeiliaid a gafodd eu bwydo ar ddwysfwydydd yn bennaf. Hefyd, mae yna beth tystiolaeth, yn enwedig ar gyfer cig oen, fod blas gwahanol i'r cig o borfa. Dyna sydd orau gan ddefnyddwyr sy'n gyfarwydd â bwyta cig o anifeiliaid wedi'u **bwydo ar laswellt**.

Er mwyn cael y budd mwyaf o asidau brasterog omega-3 a lliw da gan gig o laswellt, mae'n bwysig cynnal tir glas **deiliog**. Bydd troi glaswellt yn silwair yn cadw rhai o fanteision glaswellt ffres. Mae gwywo yn elfen hollbwysig: os yw'r glaswellt wedi gor-wywo – am 48 awr, er enghraifft – mae'n cael gormod o olau haul a bydd yn colli'r brasterau llesol a fitamin E oherwydd ocsideiddio. Bydd gwywo cyflym dros gyfnod byr o 5-6 awr, cyn silweirio cyflym a rheoli'r cladd yn dda, yn helpu i gadw asidau brasterog da a fitamin E.